

# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y CABINET DROS DIOGELU'R CYHOEDD

**DYDD** Llun, 24 Ionawr 2022

**YN BRESENNOL: Y Cyngorydd:** P.M. Hughes (Aelod o'r Cabinet)

## **Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**

R. Griffiths, Head of Place and Sustainability  
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith  
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol  
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 2.00 yp - 2.15 yp

## **1. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## **2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 17EG MEDI, 2021**

**PENDERFYNWYD** llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021, gan ei fod yn gywir.

## **3. Y DDEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO**

Bu'r Aelod Cabinet ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r defnydd o guddwyllo gan yr Awdurdod yn ystod 2021. Nodwyd hefyd bod dogfen weithdrefn y Cyngor wedi'i hadolygu ac nad oedd angen unrhyw newidiadau.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Gwylidwriaeth Gyfeiriedig;
- Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol;
- Rhyng-gipio Data Cyfathrebu;
- Cuddwyllo Anawdurdodedig;
- Adroddiadau Ystadegol;
- Dogfen Gweithdrefnau Cuddwyllo.
- Hyfforddiant

Nododd yr Aelod Cabinet nad oedd unrhyw awdurdodiadau wedi'u cyflwyno dan y Ddeddf hon yn ystod 2021 ynghylch y dull o gynnal gwylidwriaeth gyfeiriedig, ffynonellau cuddwybodaeth ddynol a rhyng-gipio data cyfathrebu.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol y byddai sesiwn hyfforddi gloywi yn cael ei threfnu'r flwyddyn galendr hon a bod pob Cyfarwyddwr eisoes wedi cael ei ofyn i ganfasio staff ar gyfer sesiynau hyfforddi. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wrth y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd y byddai'n fodlon ymgymryd â hyfforddiant uniongyrchol gyda Swyddogion Gorfodi Rheolau Cynllunio ac unrhyw swyddogion cynllunio eraill a allai elwa o ymgymryd â hyfforddiant cuddwyllo.

**PENDERFYNWYD:**

**3.1 nodi'r gweithgaredd cuddwylio yr oedd yr Awdurdod wedi ymgymryd ag ef yn 2021;**

**3.2 cymeradwyo'r Weithdrefn Arolygu Corfforaethol ar gynnal gwyliaidwriaeth ar gyfer 2022.**

**4. DATGANIAD GORFODI RHEOLAU CYNLLUNIO'R CYNGOR**

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi manylion y Datganiad Gorfodi Rheolau Cynllunio.

Nodwyd y cafodd y Polisi Gorfodi presennol ei ddatblygu yn 2015 a bod Polisi Gorfodi Corfforaethol cyffredinol wedi'i fabwysiadu ym mis Ebrill 2018. Diweddarwyd y Datganiad Gorfodi Rheolau Cynllunio gwreiddiol yn dilyn canfyddiadau Adolygiad Archwilio Cymru ac i ystyried y newidiadau yn yr amgylchedd mewnol ac allanol.

Roedd datganiad yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Eglurhad ar yr hyn a oedd yn torri rheol a'r hyn nad oedd yn torri rheol.
- Adolygiad o'r dulliau adrodd cyfredol gan gynnwys y polisi ar geisiadau am wasanaeth gan achwynwyr dienw
- Gwybodaeth am wahanol gamau'r ymchwiliad a beth i'w ddisgwyl
- Nodi'r Targedau Gwasanaeth yr oedd yr adran yn anelu at eu cyflawni
- Nodi'r 3 Blaenoriaeth yn dibynnu ar ddifrifoldeb y toriad honedig a'r amserlenni ar gyfer ymweliadau gan y gwasanaeth.
- Gwybodaeth am sut mae'r awdurdod yn rheoli canmoliaeth a chwynion

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Gorfodi Rheolau Cynllunio.**

---

**AELOD O'R CABINET**

---

**DYDDIAD**